**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Remote Microsoft Teams Meeting on Dydd Llun, 5ed Hydref, 2020 at 11.00 am**

**PRESENT:** County Councillors: A. Easson, R. Edwards, M.Feakins, D. Jones, P. Murphy, D. Havard and H. Morgan

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |
| Gareth Peel | |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**APOLOGIES:**

Councillors B. Thomas and J.D. Hayes

1. **Ethol Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sir D. Jones yn Gadeirydd.

2. **Penodi Is-gadeirydd.**

Penodwyd y Cynghorydd D. Havard yn Is-gadeirydd.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant..

4. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Mynwy.**

Cadarnhaodd a llofnododd y Cadeirydd gofnodion Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy dyddiedig 27 Ionawr 2020.

5. **Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Mynwy am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid yr adroddiad blynyddol am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2020.

Wrth wneud hynny, byddai'r Rheolwr Cyllid yn cysylltu â'r Trysorydd am ba mor hir y byddai Ymddiriedoaleth Roger Edwards yn parhau i dalu i Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2020.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Remote Microsoft Teams Meeting on Dydd Llun, 5ed Hydref, 2020 at 11.00 am**

6. **Derbyn y strategaeth buddsoddi a risg ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.**

Derbyniwyd y Strategaeth Buddsoddi a Risg ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy 2020/21.

Nodwyd yr adroddiad.

7. **Cytuno ar gyllideb grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.**

Penderfynwyd y byddai Cyllideb Grant Ymddiriedolaeth Gwaddol Sir Fynwy ar gyfer 2020/21 yn £30,000.

8. **Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Barn y Swyddog Priodol ynghlwm).**

Penderfynwyd eithrio’r wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem ddilynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y’i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn cynnwys y datgeliad debygol o wybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf..

9. **Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y Gronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2019/20.**

Ystyriwyd pedwar cais a dderbyniwyd ar gyfer y gronfa ymddiriedolaeth a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) gwneud dyfarniadau i’r pedwar ymgeisydd, fel y cytunwyd, yn amodol ar derbyn derbynebau priodol a thystiolaeth o fynychu;

(ii) ychwanegu eitem at agenda cyfarfod nesaf Ymddiriedolaeth gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy i drafod cyllido prentisiaethau mewn galwedigaethau seiliedig ar y tir.

10. **Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y Gronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2020/21.**

Ystyriwyd naw cais a dderbyniwyd ar gyfer cronfa’r Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) gwneud dyfarniadau i'r naw ymgeisydd, fel y cytunwyd, yn amodol ar dderbyn derbynebau priodol a thystiolaeth o fynychu;

(ii) bod un o'r ymgeiswyr yn rhoi manylion i swyddogion am eu benthyciad Addysg Uwch.

Roedd cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd i fyfyrwyr yn y cyfarfod yn £7696.62.

**11. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Llun 1 Chwefror 2021 am 11.00am.

**The meeting ended at 11.52 am**